Radnorshire Wildlife Trust

Staff
Hanes
Trefn Rheoli
Swyddi

Ymuno â Ni

Diogelu bywyd gwyllt lleol

Languages

- English
- Cymraeg

Next Event

Sorry no events found to match your criteria

Trefn Rheoli

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed ym 1987. Mae'n elusen gofrestredig (rhif 519021) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (rhif 2132736) a reolir yn unol â'i Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasiad.

Pwy sy'n llywodraethu Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed?

Mae aelodau Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed yn ethol tîm o Ymddiriedolwyr i'r Cyngor Rheoli yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, i wasanaethu am dymor tair blynedd. Nid yw Ymddiriedolwyr yn cael eu talu am eu gwasanaethau. Gwirfoddolwyr ydyn nhw i gyd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bob deufis i drafod cynnydd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed. Yn eu trafodaethau, mae'r tîm yn edrych i weld a yw nodau strategol yn cael eu cyflawni, ac yn sicrhau bod cyllid yn cael ei reoli'n briodol. Maen nhw'n ymgynghori ag aelodau o staff yn aml, ac mae Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Natur (RSWT)

"

Pwy yw'r RSWT?

Mae RSWT yn sefyll am y Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Natur, neu 'Yr Ymddiriedolaethau Natur' i roi'r enw mwyaf cyffredin ar y gymdeithas. Mae ganddi ei rhif elusen ei hun (rhif 207238) ac fe'i sefydlwyd ym 1912. Mae'r enw wedi'i newid sawl tro ers hynny.

Mae RSWT yn gweithredu fel corff ambarél ar gyfer y 47 Ymddiriedolaeth

PDFmyURL

Natur unigol yn y DU gyfan, Ynys Manaw ac Alderney. Maen nhw'n helpu i gydlynu gweithgareddau'r Ymddiriedolaethau unigol ac yn ymgyrchu ar lefel y DU.

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Pwy yw YNC?

Mae YNC yn sefyll am Ymddiriedolaethau Natur Cymru ac mae'n cynnwys y 6 Ymddiriedolaeth unigol yng Nghymru. Mae gan YNC ei rif elusen ei hun (rhif 1045167) a'i rif cwmni ei hun (rhif 3032775).

Mae YNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd deddfwriaeth newydd yn amddiffyn bywyd gwyllt.

View page as PDF Printer friendly version Share

Protecting Wildlife for the Future © Radnorshire Wildlife Trust Charity No. 519021 Company No. 2132736 | Rhif elusen. 519021 Rhif cwmni. 2132736

Website by Precedent

PDFmyURL.com - convert URLs, web pages or even full websites to PDF online. Easy API for developers!